**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2015 RHIF 25**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YNG NGHAE GLAS, NANT-Y-GLO, BLAENAU GWENT) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *15 Gorffennaf 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)**.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yng Nghae Glas, Nant-y-glo, Blaenau Gwent) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yng Nghae Glas, Nant-y-glo, Blaenau Gwent) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffordd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra (wedi eu labelu'n '1' a '2') ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 11

Chwefror 2015 o dan y cyfeirnod C/2014/0392 ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Priffordd Newydd**

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir â llinellau fertigol trwm (wedi ei labelu'n 'A') ar y plan a adneuwyd, a bydd y briffordd hon, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(2)**, yn briffordd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

**Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd**

**4.** Ni chaniateir cau'r darnau o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darnau o briffordd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darnau o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Gorffennaf 2015

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

## YR ATODLENNI
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1
**Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n mesur 115 o fetrau sgwâr, i'r de o Rif 39 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu'n '1' ar y plan a adneuwyd).

Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed, sy'n mesur 39.7 o fetrau sgwâr, i'r gorllewin o Rifau 39 a 40 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu'n '2' ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 2
**Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu**

Darn o lwybr troed, sy'n mesur 46.8 o fetrau sgwâr, i'r de o Rif 28 Cae Glas ac i'r gorllewin o Rifau 39 a 40 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu'n 'A' ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 3
**Y Datblygiad**

Adlinio llwybr troed, ad-drefnu pen troi, adeiladu grisiau a mannau i eistedd ac ailbroffilio'r tir fel rhan o raglen i wella'r amgylchedd ar gyfer cymuned Cae Glas, Nant-y-glo.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YNG NGHAE GLAS, NANT-Y-GLO, BLAENAU GWENT) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu'r darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yng Nghae Glas, Nant-y-glo, Blaenau Gwent) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn: Tai Calon, Solis One, Griffin Lane, Ystad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 3JW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1206630/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 15 Gorffennaf 2015, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### ATODLEN 1

### Disgrifiad o’r darnau o briffordd sydd i’w cau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy’n mesur 115 o fetrau sgwâr, i’r de o Rif 39 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu’n ‘1’ ar y plan a adneuwyd).

Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed, sy’n mesur 39.7 o fetrau sgwâr, i’r gorllewin o Rifau 39 a 40 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu’n ‘2’ ar y plan a adneuwyd).

### ATODLEN 2

### Disgrifiad o’r briffordd newydd sydd i’w darparu

Darn o lwybr troed, sy’n mesur 46.8 o fetrau sgwâr, i’r de o Rif 28 Cae Glas ac i’r gorllewin o Rifau 39 a 40 Cae Glas, Nant-y-glo (wedi ei labelu’n ‘A’ ar y plan a adneuwyd).

### ATODLEN 3

### Y Datblygiad

Adlinio llwybr troed, ad-drefnu pen troi, adeiladu grisiau a mannau i eistedd ac ailbroffilio’r tir fel rhan o raglen i wella’r amgylchedd ar gyfer cymuned Cae Glas, Nant-y-glo, Blaenau Gwent yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 11 Chwefror 2015 o dan y cyfeirnod C/2014/0392.